OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 485 (Cy.55)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud - -	*28 Chwefror 2006*
Yn dod I rym - -	*1 Mawrth 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(a), (e) ac (f), 17(1) a (2), 26(1)(a), (2)(e) a (3), 31(1) a (2)(b), (c) ac (f), a 48(1)(c) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**), ac a freiniwyd ynddo bellach(**2**), ac ar ôl iddo roi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac ar ôl ymgynghori fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 o Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, ac sy'n sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2006, deuant i rym ar 1 Mawrth 2006 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

nid yw "awdurdod bwyd" ("*food authority*") yn cynnwys awdurdod iechyd porthladd;

ystyr "awdurdod iechyd porthladd" ("*port health authority*"), mewn perthynas ag unrhyw ardal iechyd porthladd a sefydlwyd drwy orchymyn o dan adran 2(3) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Afiechydon) 1984(**4**), yw awdurdod iechyd porthladd ar gyfer yr ardal honno a sefydlwyd drwy orchymyn o dan adran 2(4) o'r Ddeddf honno;

ystyr "Cyfarwyddeb 98/53/EC" ("*Directive 98/53/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 98/53/EC sy'n good y dulliau samplu a'r dulliau dadansoddi ar gyfer rheoli'n swyddogol y lefelau

(**1**) 1990 p.16.
(**2**) Trosglwyddwyd Swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 1642/2003 o Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L245, 29.9.2003, t.4.).
(**4**) 1984 t.22.

o halogion penodol mewn bwydydd(**5**) fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2002/27/EC(**6**), Cyfarwyddeb y Comisiwn 2003/121/EC(**7**) a Chyfarwyddeb y Comisiwn 2004/43/EC(**8**);

ystyr "Cyfarwyddeb 2001/22/EC" ("*Directive 2001/22/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2001/22/EC sy'n gosod y dulliau samplu a'r dulliau dadansoddi ar gyfer rheoli'n swyddogol lefelau'r plwm, cadmiwm, mercwri a'r 3-MCPD sydd mewn bwydydd(**9**) fel y'i cywirwyd gan Benderfyniad y Comisiwn 2001/873/EC(**10**) ac fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2005/4/EC(**11**);

ystyr "Cyfarwyddeb 2002/26/EC" ("*Directive 2002/26/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2002/26/EC sy'n gosod y dulliau samplu a'r dulliau dadansoddi ar gyfer rheoli'n swyddogol lefelau'r ocratocsin A sydd mewn bwydydd (**12**) fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2004/43/EC a Chyfarwyddeb y Comisiwn 2005/5/EC(**13**));

ystyr "Cyfarwyddeb 2002/69/EC" ("*Directive 2002/69/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2002/69/EC sy'n gosod y dulliau samplu a'r dulliau dadansoddi ar gyfer rheoli'n swyddogol y deuocsinau a phenderfynu ar lefelau'r biffenylau polyclorinedig (PCBs) sy'n debyg i ddeuocsinau sydd mewn bwydydd(**14**) fel y'i cywirwyd drwy gorigendwm a gyhoeddwyd ar 20 Medi 2002(**15**) ac fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2004/44/EC(**16**);

ystyr "Cyfarwyddeb 2003/78/EC" ("*Directive 2003/78/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2003/78/EC sy'n gosod y dulliau samplu a'r dulliau dadansoddi ar gyfer rheoli'n swyddogol lefelau'r patwlin sydd mewn bwydydd(**17**);

ystyr "Cyfarwyddeb 2004/16/EC" ("*Directive 2004/16/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2004/16/EC sy'n gosod y dulliau samplu a'r dulliau dadansoddi ar gyfer rheoli'n swyddogol lefelau'r tun sydd mewn bwydydd tun(**18**);

"ystyr "Cyfarwyddeb 2005/10/EC" ("*Directive 2005/10/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 2005/10/EC sy'n gosod y dulliau samplu a'r dulliau dadansoddi ar gyfer rheoli'n swyddogol lefelau'r benso(a)pyren sydd mewn bwydydd(**19**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Diogelwch Bwyd 1990;

ystyr "letus awdurdodedig" ("*authorised lettuce*") yw letus o'r math a nodir ym mhwynt 1.3 o adran 1 o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn, sy'n cydymffurfio ag amodau'r rhanddirymiad o dan Erthygl 3b.2 o'r Rheoliad hwnnw mewn perthynas â'r Deyrnas Unedig;

ystyr "Rheoliad y Comisiwn" ("*the Commission Regulation*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 466/2001, sy'n gosod uchafswm y lefelau ar gyfer halogion penodol mewn bwydydd(**20**) fel y'i cywirwyd drwy gorigendwm a gyhoeddwyd ar 30 Tachwedd 2001(**21**),

(**5**) OJ Rhif L201, 17.7.1998, t.93, fel y'i mabwysiadwyd drwy Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr Ardal Economaidd Ewropeaidd Rhif 93/1999 (OJ Rhif L296, 23.11.2000, t.58).
(**6**) OJ Rhif L75, 16.3.2002, t.44 fel y'i mabwysiadwyd drwy Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr Ardal Economaidd Ewropeaidd Rhif 161/2002.
(**7**) OJ Rhif L332, 19.12.2003, t.38.
(**8**) OJ Rhif L113, 20.4.2004, t.14.
(**9**) OJ Rhif L77, 16.3.2001, t.14.
(**10**) OJ Rhif L325, 8.12.2001, t.34.
(**11**) OJ Rhif L19, 21.1.2005, t.50.
(**12**) OJ Rhif L75, 16.3.2002, t.38.
(**13**) OJ Rhif L27, 29.1.2005, t.38.
(**14**) OJ Rhif L209, 6.8.2002, t.5.
(**15**) OJ Rhif L252, 20.9.2002, t.40.
(**16**) OJ Rhif L113, 20.4.2004, t.17.
(**17**) OJ Rhif L203, 12.8.2003, t.40.
(**18**) OJ Rhif L42, 13.2.2004, t.16.
(**19**) OJ Rhif L34, 8.2.2005, t.15.
(**20**) OJ Rhif L77, 16.3.2001, t.1, fel y'i mabwysiadwyd drwy Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr Ardal Economaidd Ewropeaidd Rhif 81/2002 (OJ Rhif L266, 3.10.2002, t.30, ac atodiad yr Ardal Economaidd Ewropeaidd Rhif 49, 3.10.2002).
(**21**) OJ Rhif L313, 30.11.2001, t.60, fel y'i mabwysiadwyd drwy Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr Ardal Economaidd Ewropeaidd Rhif 81/2002.

ac fel y'i diwygiwyd gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2375/2001(**22**), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 221/2002(**23**), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 257/2002(**24**), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 472/2002(**25**) fel y'i cywirwyd drwy gorigendwm a gyhoeddwyd ar 23 Mawrth 2002(**26**), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 563/2002(**27**) fel y'i cywirwyd drwy gorigendwm a gyhoeddwyd ar 14 Mehefin 2002(**28**), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1425/2003(**29**)), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2174/2003(**30**)), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 242/2004(**31**)), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 455/2004(**32**)), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 655/2004(**33**)), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 683/2004(**34**)), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 684/2004(**35**)), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 78/2005(**36**)), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 123/2005(**37**), Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 208/2005(**38**) a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1822/2005(**39**);

ystyr "sbigoglys awdurdodedig" ("*authorised spinach*") yw sbigoglys o'r math a bennir ym mhwynt 1.1 o adran 1 o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn, sy'n cydymffurfio ag amodau'r rhanddirymiad o dan Erthygl 3b.1 o'r Rheoliad hwnnw mewn perthynas â'r Deyrnas Unedig;

ystyr "swyddog awdurdodedig" ("*authorised officer*") yw unrhyw berson a awdurdodir mewn ysgrifen, un ai'n gyffredinol neu'n benodol, gan awdurdod bwyd, neu, yn ôl y digwydd, awdurdod porthladd, i weithredu ynglŷn â materion sy'n codi o dan y Rheoliadau hyn; ac

ystyr "Rheoliad 882/2004" ("*Regulation 882/2004*") yw Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 o Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch rheolaethau swyddogol a gyflawnir i sicrhau cadarnhau cydymffurfio â deddfwriaeth ynghylch bwyd anifeiliaid a bwyd, a rheolau iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid(**40**).

(2) Mae i unrhyw ymadrodd arall a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac yn Rheoliad y Comisiwn yr un ystyr ag a roddir i'r ymadrodd Saesneg cyfatebol yn Rheoliad y Comisiwn.

Troseddau a chosbau

3.—(1) Yn ddarostyngedig i'r trefniadau trosiannol a gynhwysir yn narpariaethau'r Gymuned a nodir ym mharagraff (2), bydd person yn euog o drosedd ac yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol os yw—

(a) y person hwnnw yn gosod unrhyw fwyd ar y farchnad (heblaw am letus awdurdodedig neu sbigoglys awdurdodedig) sy'n dod o fewn cwmpas Erthygl 1.1, 2.1, 2.2 neu 4.1 o Reoliad

(**22**) OJ Rhif L321, 6.12.2001, t.1, fel y'i mabwysiadwyd drwy Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr Ardal Economaidd Ewropeaidd Rhif 81/2002.
(**23**) OJ Rhif L37, 7.2.2002, t.4, fel y'i mabwysiadwyd drwy Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr Ardal Economaidd Ewropeaidd Rhif 139/2002 (OJ Rhif L19, 23.1.2003, t.3 ac atodiad yr Ardal Economaidd Ewropeaidd Rhif 5, 23.1.2003).
(**24**) OJ Rhif L41, 13.2.2002, t.12, fel y'i mabwysiadwyd drwy Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr Ardal Economaidd Ewropeaidd Rhif 100/2002 (OJ Rhif L298, 31.10.2002, t.13 ac atodiad yr Ardal Economaidd Ewropeaidd Rhif 54, 31.10.2002, t.11).
(**25**) OJ Rhif L75, 16.3.2002, t.18, fel y'i mabwysiadwyd drwy Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr Ardal Economaidd Ewropeaidd Rhif 161/2002 (OJ Rhif L38, 13.2.2003, t.16 ac atodiad yr Ardal Economaidd Ewropeaidd Rhif 9, 13.2.2003, t.13).
(**26**) OJ Rhif L80, 23.3.2002, t.42.
(**27**) OJ Rhif L86, 3.4.2002, t.5, fel y'i mabwysiadwyd drwy Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr Ardal Economaidd Ewropeaidd Rhif 161/2002.
(**28**) OJ Rhif L155, 14.6.2002, t.63, fel y'i mabwysiadwyd drwy Benderfyniad Cyd-bwyllgor yr Ardal Economaidd Ewropeaidd Rhif 161/2002.
(**29**) OJ Rhif L203, 12.8.2003, t.1.
(**30**) OJ Rhif L326, 13.12.2003, t.12.
(**31**) OJ Rhif L42, 13.2.2004, t.3.
(**32**) OJ Rhif L74, 12.3.2004, t.11.
(**33**) OJ Rhif L104, 8.4.2004, t.48.
(**34**) OJ Rhif L106, 15.4.2004, t.3.
(**35**) OJ Rhif L106, 15.4.2004, t. 6.
(**36**) OJ Rhif L16, 20.1.2005, t.43.
(**37**) OJ Rhif L25, 28.1.2005, t.3.
(**38**) OJ Rhif L34, 8.2.2005, t.3.
(**39**) OJ Rhif L293, 9.11.2005, t.11.
(**40**) OJ Rhif L191, 28.5.2004, t.1.

y Comisiwn, wedi'u darllen ar y cyd ag Erthyglau 1.2 a 4.3 o'r Rheoliad hwnnw, ond heb gydymffurfio â gofynion yr Erthyglau hynny; neu

(b) y person hwnnw yn tramgwyddo Erthygl 2.3, 4.2 neu 4a o Reoliad y Comisiwn;

(2) Y rhai o ddarpariaethau'r Gymuned a grybwyllir ym mharagraff (1) yw—

(a) Erthygl 7 o Reoliad y Comisiwn;

(b) Erthygl 2 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 655/2004 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 466/2001 mewn perthynas â nitradau mewn bwydydd ar gyfer babanod a phlant bach;

(c) Erthygl 3 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 683/2004 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 466/2001 mewn perthynas ag afflatocsinau ac ocratocsin A mewn bwydydd ar gyfer babanod a phlant bach;

(ch) Erthygl 2 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 123/2005 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 466/2001 mewn perthynas ag ocratocsin A;

(d) Erthygl 2 o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 208/2005 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 466/2001 mewn perthynas â hydrocarbonau aromatig polysyclig.

Gorfodi

4. Mae'n ddyletswydd ar bob awdurdod iechyd porthladd i weithredu a gorfodi'r Rheoliadau hyn o fewn ei ardal.

Caffael a dadansoddi samplau

5.—(1) Pan fo sampl i'w gymryd o dan adran 29(b) neu (d) o'r Ddeddf o fwyd a bennir yn Atodiad I i Reoliad y Comisiwn, rhaid cymryd y sampl hwnnw yn unol â'r dulliau o gymryd samplau a ddisgrifir neu y cyfeirir atynt—

Nitradau

(a) (yn ddarostyngedig i'r gofyniad a bennir yng ngholofn 3 o Adran 1 o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn(**41**)), yn yr Atodiad i Gyfarwyddeb y Comisiwn 2002/63/EC sy'n gosod dulliau samplu'r Gymuned ar gyfer rheoli'n swyddogol weddillion plaleiddiaid mewn cynhyrchion sy'n dod o blanhigion ac anifeiliaid ac arnynt, ac sy'n diddymu Cyfarwyddeb 79/700/EC(**42**), pan fo'r bwyd dan sylw yn cyfateb i ddisgrifiad a bennir yn Adran 1 o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn, a'r Gyfarwyddeb honno yn gymwys i samplu'r bwyd hwnnw yn unol ag Erthygl 1.3 o'r Rheoliad hwnnw;

Afflatocsinau

(b) yn Atodiad I i Gyfarwyddeb 98/53/EC, pan fo'r bwyd dan sylw yn cyfateb i ddisgrifiad a bennir yn Adran 2 o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn, a'r Gyfarwyddeb honno yn gymwys i samplu'r bwyd hwnnw yn unol ag Erthygl 1.3 o'r Rheoliad hwnnw;

Ocratocsin A

(c) yn Atodiad I i Gyfarwyddeb 2002/26/EC, pan fo'r bwyd dan sylw yn cyfateb i ddisgrifiad a bennir yn Adran 2 o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn, a'r Gyfarwyddeb honno yn gymwys i samplu'r bwyd hwnnw yn unol ag Erthygl 1.3 o'r Rheoliad hwnnw;

Patwlin

(**41**) Y gofyniad yw mai'r isafswm o unedau sy'n ofynnol ar gyfer sampl labordy yn y fath amgylchiadau yw 10.
(**42**) OJ Rhif L187, 16.7.2002, t.30.

(ch) yn Atodiad I i Gyfarwyddeb 2003/78/EC, pan fo'r bwyd dan sylw yn cyfateb i ddisgrifiad a bennir yn Adran 2 o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn, a'r Gyfarwyddeb honno yn gymwys i samplu'r bwyd hwnnw yn unol ag Erthygl 1.3 o'r Rheoliad hwnnw;

Plwm, cadmiwm, mercwri a 3-MCPD

(d) yn Atodiad I i Gyfarwyddeb 2001/22/EC, pan fo'r bwyd dan sylw yn cyfateb i ddisgrifiad a bennir yn Adran 3 neu 4 o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn, a'r Gyfarwyddeb honno yn gymwys i samplu'r bwyd hwnnw yn unol ag Erthygl 1.3 o'r Rheoliad hwnnw;

Deuocsinau a biffenylau polyclorinedig (PCBs) sy'n debyg i ddeuocsinau

(dd) yn Atodiad I i Gyfarwyddeb 2002/69/EC, pan fo'r bwyd dan sylw yn cyfateb i ddisgrifiad a bennir yn Adran 5 o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn, a'r Gyfarwyddeb honno yn gymwys i samplu'r bwyd hwnnw yn unol ag Erthygl 1.3 o'r Rheoliad hwnnw;

Tun

(e) yn Atodiad I i Gyfarwyddeb 2004/16/EC, pan fo'r bwyd dan sylw yn cyfateb i ddisgrifiad a bennir yn Adran 6 o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn, a'r Gyfarwyddeb honno yn gymwys i samplu'r bwyd hwnnw yn unol ag Erthygl 1.3 o'r Rheoliad hwnnw; a

Benso(a)pyren

(f) yn Atodiad I i Gyfarwyddeb 2005/10/EC, pan fo'r bwyd dan sylw yn cyfateb i ddisgrifiad a bennir yn Adran 7 o Atodiad I i Reoliad y Comisiwn, a'r Gyfarwyddeb honno yn gymwys i samplu'r bwyd hwnnw yn unol ag Erthygl 1.3 o'r Rheoliad hwnnw.

Paratoi a dadansoddi samplau ar gyfer afflatocsinau

(2) Pan fo swyddog awdurdodedig, yn unol ag adran 29(b) neu (d) o'r Ddeddf fel y'i haddaswyd gan baragraff (1), wedi cymryd sampl o fwyd sy'n cyfateb i'r disgrifiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (b) o'r paragraff hwnnw, ac wedi cyflwyno'r sampl i gael ei dadansoddi yn unol ag adran 30(1)(a) o'r Ddeddf, rhaid i'r person sy'n dadansoddi'r sampl sicrhau—

(a) y caiff y sampl ei pharatoi yn unol â—

(i) paragraffau 1.1, 2 a 3 o Atodiad II i Gyfarwyddeb 98/53/EC, a

(ii) yn achos cnau cyfan, yn unol â pharagraff 1.2 o'r Atodiad hwnnw;

(b) bod unrhyw ddadansoddiad o'r sampl yn cael ei wneud yn unol â dulliau dadansoddi sydd yn cydymffurfio â'r meini prawf a bennir ym mharagraff 4.3 o Atodiad II i Gyfarwyddeb 98/53/EC, wedi'i ddarllen ar y cyd â'r nodiadau i'r paragraff hwnnw;

(c) bod unrhyw ddadansoddiad o'r sampl yn cael ei wneud gan labordy a ddynodwyd yn unol â gofynion Erthygl 12.2 o Reoliad 882/2004;

(ch) bod yr adrodd ynghylch canlyniadau dadansoddi'r sampl honno—

(i) yn defnyddio'r diffiniadau a geir ym mharagraff 4.1 o Atodiad II i Gyfarwyddeb 98/53/EC, a

(ii) yn unol â pharagraff 4.4 o'r Atodiad hwnnw.

Paratoi a dadansoddi samplau ar gyfer plwm, cadmiwm, mercwri a 3-MCPD

(3) Pan fo swyddog awdurdodedig, yn unol ag adran 29(b) neu (d) o'r Ddeddf fel y'i haddaswyd gan baragraff (1), wedi cymryd sampl o fwyd sy'n cyfateb i'r disgrifiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (e) o'r paragraff hwnnw, ac wedi cyflwyno'r sampl i gael ei dadansoddi yn unol ag adran 30(1)(a) o'r Ddeddf, rhaid i'r person sy'n dadansoddi'r sampl sicrhau—